**Y Grawys**

**Darllen Mathew 4:8–11**

Trown at y trydydd darlun y mae Iesu'n ei droi a'i drosi yn ei ben. Yn ei weledigaeth mae'n cael darlun o'r byd – y byd y daeth i'w achub. Meddai'r llais wrtho, 'Y rhain i gyd a roddaf i ti, os syrthi i lawr a'm haddoli i' (Mathew 4:9). Trown eto at Lyfr y Salmau, ac onid oes adlais o'r geiriau hyn yn yr ail Salm, 'Dywedodd wrthyf, "Fy mab wyt ti, myfi a'th genhedlodd di heddiw; gofyn, a rhoddaf iti'r cenhedloedd yn etifeddiaeth, ac eithafoedd daear yn eiddo iti"' (Salm 2:7–8).

Beth mae'r profwr yn ei ddweud wrtho'r tro hwn? Un gair yn unig – cyfaddawdu! Beth am iti ddod i delerau â mi? Paid ag anelu'n rhy uchel! Os gwnei di osod d'egwyddorion yn rhy uchel bydd pobl yn dy wrthod, a dyna dy genhadaeth ar ben! Plyga dipyn ar d'egwyddorion, a bydd pobl yn siŵr o'th ddilyn! Tyrd i delerau â'r byd! Beth am i ti geisio newid y byd trwy ddod yn un â'r byd? Unwaith eto daeth ateb Iesu gyda dyfyniad o'r Ysgrythur, o Deuteronomium 6:13 y tro hwn, 'Yr Arglwydd dy Dduw a addoli ac ef yn unig a wasanaethi' (Mathew 4:10). Mae Iesu'n dangos yn berffaith glir na ellir dileu drygioni trwy gyfaddawdu â drygioni. Nid nod Cristnogaeth yw plygu i lefel y byd ond yn hytrach codi lefel y byd i wastad Cristnogaeth.

Beth sy'n dod yn amlwg i ni ym mhrofiadau Iesu yn yr anialwch? Pa adnoddau oedd ganddo yn ei frwydr yn erbyn y profwr? Bob tro y mae'r profwr yn meddwl ei fod wedi cael y gorau arno mae Iesu'n dyfynnu o'r Ysgrythurau. Mae wedi'i fagu ar faeth y Gair, a dyma sy'n ei gynnal yn y dydd blin. Cafodd ei nerthu a'i arwain gan wirionedd y Gair. Ond mae'n rhaid cofio y gallwn ddefnyddio'r Gair i bob pwrpas dan haul a hyrddio adnodau at ein gilydd i brofi neu wrthbrofi hyn ac arall. Ond mae'n rhaid cofio un sylw gan Mathew ar ddechrau'r bennod, 'Yna arweiniwyd Iesu i'r anialwch gan yr Ysbryd, i gael ei demtio gan y diafol' (4:1). Yr Ysbryd hwn oedd yn ei gynnal a'r Ysbryd hwn oedd yn ei alluogi i amgyffred pethau Duw, fel y dywed Paul wrth aelodau'r eglwys yng Nghorinth, 'Nid yw'r rhai anianol yn derbyn pethau Ysbryd Duw, oherwydd ffolineb ydynt iddynt hwy, ac ni allant eu hamgyffred, gan mai mewn modd ysbrydol y maent yn cael eu barnu' (1 Corinthiaid 2:14). Sylweddolodd Iesu yn yr anialwch fod geiriau ei Feibl yn berthnasol i'w sefyllfa yng ngrym yr Ysbryd Glân. Yr Ysbryd hwn oedd yn ei oleuo a'i arwain.

Mae'n werth gosod profiadau'r anialwch yng nghyd-destun hanes cenedl Israel gan eu bod yn adlewyrchu'r profion y bu'n rhaid i Israel eu hwynebu. Rhoddwyd ffydd y genedl ar brawf – caniatawyd i Israel newynu er mwyn iddi ddysgu ufuddhau i Dduw, ond methu a wnaeth. Rhoddwyd teyrngarwch y genedl ar brawf – gan fynnu mai Duw yn unig a wasanaethai, ond methu a wnaeth. Rhoddwyd ffydd Israel yn Nuw ar brawf – ond dangosodd ei diffyg ffydd, a methu a wnaeth. Ond lle methodd y genedl, llwyddodd y Mab – Mab Duw – i wynebu'r profion a gweithredu'r ufudd-dod, y teyrngarwch a'r ffydd oedd mor ddiffygiol yn hanes y genedl. Gadawodd Iesu'r anialwch yn goncwerwr.

**Myfyrdod pellach:**
Ydych chi wedi cael eich profi?
Beth yn eich barn chi oedd cyfrinach dewrder Iesu yn yr anialwch?

***Huw John Hughes***